**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

# Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 5

FFIOEDD

### Ffioedd am wasanaethau neu gyfleusterau

**33.** Yn ychwanegol at eu pŵer i ofyn am ffioedd llongau, ffioedd teithwyr a ffioedd nwyddau o dan adran 26 o Ddeddf 1964, caiff y Comisiynwyr ofyn am, cymryd ac adennill pa bynnag ffioedd rhesymol a benderfynir ganddynt o bryd i'w gilydd, am wasanaethau a chyfleusterau a ddarperir ganddynt o fewn yr harbwr.

### Talu ffioedd

**34.**—(1) Mae'r ffioedd y mae'r Comisiynwyr wedi'u hawdurdodi ar y pryd i ofyn amdanynt, i'w cymryd ac i'w hadennill, mewn perthynas â llongau a nwyddau neu fel arall o dan unrhyw ddeddfiad, yn daladwy cyn symud allan o'r harbwr unrhyw longau neu nwyddau y mae'r ffioedd yn daladwy mewn perthynas â hwy, a cheir gofyn amdanynt, eu cymryd, a'u hadennill gan y cyfryw bersonau, yn y cyfryw fannau ar y cyfryw adegau ac o dan y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Comisiynwyr o bryd i'w gilydd yn eu rhestr gyhoeddedig o ffioedd.

(2) Mae'r ffioedd sy'n daladwy i'r Comisiynwyr yn daladwy gan berchennog unrhyw long neu nwyddau y mae'r ffioedd yn daladwy mewn perthynas â hi neu hwy.

(3) Pan fo'r ffioedd sy'n daladwy i'r Comisiynwyr yn adenilladwy ganddynt o fwy nag un person, mae'r personau y gellir eu hadennill ohonynt yn atebol ar y cyd ac yn unigol.

(4) Heb leihau effaith paragraff (1), caiff y telerau ac amodau a bennir o bryd i'w gilydd gan y Comisiynwyr ynglŷn â thalu ffioedd gynnwys yr amser pan ddaw ffi yn ddyledus i'w thalu, a chânt ei gwneud yn ofynnol bod perchennog neu feistr llong, neu berson sy'n defnyddio gwasanaeth neu gyfleuster y Comisiynwyr, yn rhoi i'r Comisiynwyr pa bynnag wybodaeth y gofynnir amdani gan y Comisiynwyr mewn cysylltiad ag asesu neu gasglu ffi.

### Trefniadau compowndio ac ad-daliadau

**35.** Nid oes dim yn adran 30 o Ddeddf 1964 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiynwyr yn cynnwys, yn y rhestr o ffioedd llongau, teithwyr a nwyddau a gedwir yn swyddfa'r harbwr fel sy'n ofynnol gan is-adran (1) o'r adran honno, ffioedd a ostyngwyd oherwydd ad-daliad a ganiatawyd ar ffi a gynhwysir yn y rhestr, neu sy'n destun trefniant compowndio mewn perthynas â ffi a gynhwysir yn y rhestr.

### Ernes am ffioedd

**36.**—(1) Caiff y Comisiynwyr ei gwneud yn ofynnol bod person sy'n atebol am ffi, neu ar fin bod yn atebol am ffi, yn adneuo gyda'r Comisiynwyr neu'n gwarantu pa bynnag swm o arian sydd, ym marn y Comisiynwyr, yn rhesymol o ystyried swm, neu swm tebygol, y ffi.

(2) Os yw person o'r fath yn methu ag adneuo neu warantu'r swm o arian sy'n ofynnol gan y Comisiynwyr, caiff y Comisiynwyr gadw'r llong neu'r nwyddau a ysgogodd y ffi, neu a fydd yn ysgogi'r ffi, yn gaeth yn yr harbwr hyd nes cydymffurfir â'r gofyniad neu hyd nes telir y ffi.

### Hawlrwymau am ffioedd

**37.**—(1) Mae gan berson sydd, drwy gytundeb gyda'r Comisiynwyr, yn casglu ffioedd ar eu rhan ac yn talu, neu'n rhoi sicrwydd y telir, ffioedd ar nwyddau ym meddiant y person hwnnw, hawlrwym ar y nwyddau hynny am y swm a dalwyd neu'r sicrwydd a roddwyd mewn perthynas â hwy.

(2) Caiff glanfäwr neu gludydd nad yw'n atebol i dalu ffioedd, dalu neu, drwy gytundeb gyda'r Comisiynwyr roi sicrwydd am y ffioedd ar nwyddau sydd yng ngofal y glanfäwr neu'r cludydd, ac os digwydd hynny bydd gan y glanfäwr neu gludydd hawlrwym cyffelyb ar y nwyddau am swm y ffioedd hynny, fel y byddai gan y glanfäwr neu'r cludydd mewn perthynas â ffioedd am ddiogelu neu gludo'r nwyddau, yn ôl fel y digwydd.

### Meistr llong bysgota i roi datganiad o'i helfa o bysgod

**38.**—(1) Rhaid i feistr neu berchennog unrhyw long (nad yw'n gwch pleser) sydd â helfa neu gargo o bysgod ar ei bwrdd, pan fo'r llong yn cyrraedd o fewn terfynau'r harbwr, ddarparu i'r casglwr ardrethi ddatganiad gwir a chywir o'i helfa neu gargo o bysgod ac enw pob person sy'n cael cyflenwad o'r helfa neu'r cargo.

(2) Mae meistr neu berchennog llong sy'n peidio â chydymffurfio â'r erthygl hon yn cyflawni tramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol.

### Caiff harbwrfeistr atal llongau rhag hwylio

**39.** Caiff yr harbwrfeistr atal unrhyw long rhag cael ei symud neu hwylio allan o'r harbwr hyd nes dangosir tystiolaeth i'r harbwrfeistr fod unrhyw ffioedd sy'n daladwy wedi eu talu, mewn perthynas â'r llong, neu'r teithwyr sydd arni neu unrhyw nwyddau a fewnforiwyd neu a allforiwyd (ac yn achos llong sydd â helfa neu gargo o bysgod, hyd nes bo meistr neu berchennog y llong wedi rhoi'r datganiad o'i helfa neu gargo o bysgod fel sy'n ofynnol gan erthygl 38).

### Esemptiadau rhag talu ffioedd

**40.** Ac eithrio fel a gytunir rhwng y Comisiynwyr a'r gwasanaeth badau achub dan sylw, neu fel a ddatgenir yn benodol mewn statud, nid oes dim mewn unrhyw ddeddfiad sy'n awdurdodi'r Comisiynwyr i godi ffioedd, sy'n eu hawdurdodi i godi ffioedd ar long sy'n eiddo i, neu a ddefnyddir gan, wasanaeth badau achub, tra defnyddir y llong ar gyfer neu mewn cysylltiad â swyddogaethau'r gwasanaeth hwnnw.